



Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 346 – 16 Mehefin 2011
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2011.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 345

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 345

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad.

Nododd ei fod wedi cyfarfod â swyddogion yr ADdCCh ar ddydd Mawrth, 16 Mehefin ac yna aelodau o staff Ymddiriedolaeth y BBC, yr Athro Elan Closs Stephens a Mark Thompson.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Prif Weithredwr am ddiweddariad ar y trafodaethau rhwng S4C, y BBC a'r AddCCh a rhoddodd AEO grynodedb o'r sefyllfa.

Nodwyd bod y Cadeirydd a'r Arglwydd Patten, Cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC, yn cyfarfod yr wythnos nesaf.

Esboniwyd fod Swyddfa'r Cabinet wedi cyhoeddi heddiw y bydd newid i S4C o fewn y Mesur Cyrff Cyhoeddus cyn diwedd mis Mehefin.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad.

Cyflwynodd bapurau ar ail-strwythuro'r staff gan nodi fod 30 o geisiadau wedi eu derbyn ar gyfer diswyddo gwirfoddol. Mae'r Tîm Rheoli yn asesu'r ceisiadau a disgwylir cyhoeddiad o'r penderfyniadau i'r staff ar ddydd Mercher, 22 Mehefin.

Diolchodd i'r staff a fu wrth y gwaith am eu proffesiynoldeb yn ystod cyfnod anodd dros ben.

4. Gweledigaeth 2012

Yn dilyn y cyflwyniad a wnaed i Bwyllgor Cynnwys yr Awdurdod ar Fehefin 6ed a sylwadau pellach a dderbyniwyd, cyflwynodd MD ddiweddariad o Weledigaeth 2012. Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â'r ystyriaethau oedd yn codi o ran (a) natur y weledigaeth (b) manylion yr amserlen ac (c) y drefn gyflenwi.

Cymeradwywyd y penderfyniad i ganolbwyntio'r prif fuddsoddiad rhaglenni yn yr oriau brig, gan leoli mwyafrif yr ail-ddangosiadau yn yr oriau y tu allan i hynny.

Nodwyd pwysigrwydd cyrraedd yr ystod o amcanion a nodwyd yn y drafodaeth flaenorol, sef: (i) ffigurau gwyltio (ii) safon y rhaglen (iii) gwerthfawrogiad (iv) gwerth am arian, ac (v) yr effaith ehangach.

Trafodwyd natur y broses gomisiynu a chyflenwi. Cymeradwywyd y bwriad i sicrhau trefn dryloyw, deg ac agored, yn seiliedig ar egwyddorion clir. Nodwyd a chymeradwywyd yr egwyddor o sicrhau cystadleuaeth er mwyn sbarduno'r ddarpariaeth a'r syniadau gorau, tra'n rhoi cymaint o sefydlogrwydd i gyflenwyr ag sy'n gyson â'r egwyddor hon.

Gyda'r sylwadau hyn yn gefndir, cymeradwyodd yr Awdurdod Weledigaeth 2012, gyda'r amserlen newydd i'w darparu o'r 1af o Fawrth 2012 ymlaen.

Diolchwyd i'r Grŵp 2012+ am eu gwaith trwyadl a chynhwysfawr.

5. Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu

Ymhlith eraill, tynnodd MD sylw at rai o'r rhaglenni sy'n saethu ar hyn o bryd sef Teulu, yn Aberaeron, Gwaith Cartref a Pianissimo.

Bydd darpariaeth y Sioe Frenhinol eleni yn dra gwahanol yn dilyn diffodd S4C2. Bydd darllediad byw o'r sioe yn cychwyn ar ddydd Sul am y tro cyntaf. Bydd modd dilyn y cych effylau a'r gwartheg ar y we, a bydd modd pecynnu pethau ar gyfer gwyllo eto ar-lein.

Cyfeiriodd RTh at y cynnydd yn y ffigyrau gwyllo o'r Urdd eleni a gofynnwyd am fanylion y gwyllo tu allan i Gymru. Cafwyd canmoliaeth i'r ddarpariaeth ar y we o'r Eisteddfod. Roedd yn gynhwysfawr a modd canfod pethau ar-alw yn haws nag erioed.

6. Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2010

Nododd PW ei fod wedi ail gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2010 a'i fod wedi derbyn mân awgrymiadau gan yr aelodau a'r swyddogion. Ar sail yr hyn a drafodwyd, cymeradwyodd yr aelodau'r adroddiad.

7. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Gwifren
- Adroddiad Cyllid
- Adroddiad o'r Bwrdd Masnachol